FFEDERASIWN HYFFORDDIANT CENEDLAETHOL CYMRU

NTfW

NATIONAL TRAINING FEDERATION WALES

# Maniffesto'r NTFW ar gyfer Prentisiaethau:

## Adeiladu Economi Sgiliau'n Gyntaf i Gymru
## Etholiad y Senedd 2026









## Gweledigaeth ar gyfer Prentisiaethau

Mae Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru (NTFW) yn galw ar **bob** plaid wleidyddol a'r holl ymgeiswyr yn Etholiad y Senedd 2026 i ymrwymo i ddyblu'r buddsoddiad mewn prentisiaethau er mwyn cefnogi **200,000** o bobl i ddechrau ar brentisiaethau dros dymor y Senedd nesaf.

Yn ôl y Ganolfan Economeg ac Ymchwil Busnes (CEBR), gallai dyblu'r buddsoddiad mewn prentisiaethau dros dymor y Senedd nesaf **gynhyrchu £3.4 biliwn yn ychwanegol o enillion gydol oes** i bobl yng Nghymru dros y 30 mlynedd nesaf.

Mae prentisiaethau'n fwy na llwybr at gyflogaeth; maent yn asgwrn cefn economi lewyrchus yng Nghymru, yn arfogi pobl o bob cefndir â sgiliau ymarferol sy'n diwallu anghenion ein diwydiannau.

## Pam y mae Prentisiaethau'n Bwysig

Mae Cymru lwyddiannus a chynaliadwy'n dibynnu ar weithlu sy'n fedrus, yn hyblyg ac yn rymus. Mae prentisiaethau'n:

- Galluogi pobl ifanc i ennill cyflog tra byddant yn dysgu, gan hwyluso'r daith tuag at yrfaoedd ystyrlon a hirdymor.
- Cynnig cyfleoedd i uwchsgilio'r gweithlu presennol gan arwain at well datblygiad mewn gyrfaoedd a thwf economaidd.
- Cefnogi cyflogwyr bach a mawr i feithrin talent, gwella cynhyrchiant a dal yn gystadleuol mewn byd sy'n newid.

## Mae Prentisiaethau'n Hanfodol i Ddyfodol Cymru

Ceisiadau allweddol i'r llywodraeth nesaf:

- **Cyllid Prentisiaethau –** Adfer prentisiaethau a buddsoddi ynddynt, gan gyflwyno model cyllido hirdymor, cynaliadwy sy'n eu gwneud yn gyfartal â mathau eraill o addysg ôl-16.
- **Partneriaethau Cryfach rhwng Cyflogwyr a Darparwyr –** Buddsoddi mewn cydweithrediad dyfnach rhwng cyflogwyr, darparwyr hyfforddiant a chyrff y diwydiant er mwyn darparu prentisiaethau ymatebol, o ansawdd da, sy'n seiliedig ar alw.
- **Ehangu Cyfleoedd –** Ehangu mynediad pobl o bob oed a chefndir i ailhyfforddi neu uwchsgilio trwy brentisiaethau, gan hybu symudedd cymdeithasol a thwf cynhwysol.
- **Cymorth i Ddiwydiannau Datblygol –** Mwy o gyllid ar gyfer prentisiaethau mewn sectorau sy'n tyfu fel ynni gwyrdd, arloesi digidol a gofal iechyd er mwyn diogelu gweithlu Cymru ar gyfer y dyfodol.
- **Cyfle i Bawb –** Gwarantu cyfleoedd i ddilyn prentisiaethau ym mhob rhan o Gymru, er mwyn cefnogi economïau lleol, lleihau anghydraddoldebau a grymuso cymunedau.



## Rhoi Prentisiaethau wrth Galon Polisi'r Llywodraeth

Ein mandad i'r llywodraeth nesaf yw sicrhau bod mwy o fuddsoddiad ar gael ar gyfer phrentisiaethau.

- **Rhaid i brentisiaethau** fod yn flaenoriaeth o ran polisi.
- **Mae arnom angen** strategaeth sgiliau galwedigaethol sy'n pennu blaenoriaethau polisi ac a ddatblygir mewn partneriaeth â darparwyr er mwyn penderfynu beth yw'r anghenion a manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd.
- **Mae arnom angen** system sgiliau sy'n gydnaws â dyheadau economi Cymru.



## Llunio Dyfodol Prentisiaethau gyda Medr

Mae'r NTFW yn cydnabod rôl hanfodol **Medr** wrth gyflwyno arlwy prentisiaethau sy'n esblygu er mwyn diwallu'r gofynion ar gyfer gweithlu'r dyfodol. Trwy gydweithio'n agos â **Medr,** gallwn sicrhau bod rhaglenni prentisiaethau'n ymatebol, yn flaengar ac yn diwallu anghenion sy'n datblygu yn y diwydiant.

## Cryfhau Prentisiaethau er budd Twf Economaidd

Mae cydweithio'n allweddol er mwyn sicrhau bod prentisiaethau'n dal i ddiwallu anghenion diwydiant. Mae'r NTFW yn galw am fwy o ymwneud rhwng y llywodraeth, darparwyr hyfforddiant a sefydliadau fel **Ffederasiwn y Busnesau Bach (FSB) a Chydffederasiwn Diwydiant Prydain (CBI).** Trwy gydweithio, gallwn lunio rhaglenni prentisiaethau sy'n mynd i'r afael yn uniongyrchol â bylchau sgiliau, yn hybu cynhyrchiant ac yn cefnogi amrywio economaidd.



## Ymrwymo i Gymwysterau trwy Gyfrwng y Gymraeg

Mae gan Gymru dreftadaeth ieithyddol anrhydeddus a dylai prentisiaid gael cyfle cyfartal i ennill cymwysterau a gyflenwir trwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog. Rhaid i'r llywodraeth nesaf gydweithio'n agos â darparwyr, cyflogwyr a phartneriaid strategol, fel y **Coleg Cymraeg Cenedlaethol,** i sicrhau bod pob prentis yn gallu cynnal a datblygu ei sgiliau Cymraeg. Trwy wneud hynny, byddwn yn atgyfnerthu gweithlu dwyieithog Cymru ac yn creu

rhagor o gyfleoedd i fusnesau weithredu'n ddwyieithog, gan wasanaethu pob cymuned ledled y wlad a chyfrannu at dargedau Cymraeg 2050.



## Blaenoriaethu Iechyd Meddwl a Llesiant mewn Prentisiaethau

Mae darparwyr prentisiaethau'n chwarae rhan hanfodol, nid yn unig mewn datblygu sgiliau ond hefyd mewn gwarchod iechyd meddwl a llesiant prentisiaid ifanc. Fel y nodwyd mewn trafodaethau mewn pwyllgor yn y Senedd yn ddiweddar, mae'n hanfodol cael mynediad at **gyllid cyson** er mwyn sicrhau y gall darparwyr barhau i gyflenwi **gwasanaethau cymorth, canllawiau ac ymyrraeth pwrpasol ar gyfer iechyd meddwl.**

## Adduned ar gyfer Dyfodol Cymru

Mae buddsoddi mewn prentisiaethau yn fuddsoddiad mewn pobl ac yn nyfodol Cymru. Gyda chyllid teg, mynediad cynhwysol a phartneriaethau cryf, gall prentisiaethau helpu i bweru cenedl fwy cyfartal, medrus a chydnerth.

Mae'r NTFW yn annog pob ymgeisydd yn etholiad y Senedd a phob plaid wleidyddol i ymrwymo i'r weledigaeth hon.

**Gadwch i ni adeiladu Cymru sy'n ffynnu ar sgiliau, cyfleoedd ac uchelgais i BAWB!**

**Lisa Mytton, NTFW**
Cyfarwyddwr Strategol
**Ebost:** lisa.mytton@ntfw.org
**Ffôn:** 07775 908311

